Ffôn/Tel: 01492 642800
Ffacs/Fax: 01492 642801

Ffordd Nebo
LLANRWST
LL26 0SD

YSGOL DYFFRYN CONWY

Pennaeth / Head : Miss Elan Davies
e-bost/e-mail : cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk
www.ysgoldyffrynconwy.org

Annwyl ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid Blwyddyn 11,

Dosbarthwyd amserlen arholiad terfynol eich mab/merch cyn gwyliau'r Pasg. Ysgrifennaf atoch i rannu trefniadau ar eich cyfer hyd at ddiwedd eich arholiadau ym Mehefin. Dyma dabl o ddyddiadau allweddol:

Dyddiadau	**Gweithgaredd**
Dydd Mawrth 7fed o Fai	Cyfnod Amserlen Gwersi, Astudio ac Arholiadau yn cychwyn
Dydd Mawrth, 7fed o Fai	Arholiad cyntaf.
Wythnos 13eg o Fai	Cyfuniad o arholiadau allanol, gwersi arferol a sesiynau adolygu penodol.
Wythnos 20fed o Fai.	Cyfuniad o arholiadau allanol, gwersi arferol a sesiynau adolygu penodol.
Prynhawn Iau, 23ain o Fai	Cyfle i arwyddo crysau polo.
Dydd Gwener, 24ain o Fai	Bydd eich cyfnod astudio ffurfiol ym mlwyddyn 11 yn dod i ben.
Dydd Gwener 24ain o Fai	Diwrnod olaf swyddogol yn YDC.
Dydd Llun 3ydd o Fehefin	Astudio annibynnol, arholiadau a rhai sesiynau adolygu ffurfiol yn yr ysgol.
Dydd Mercher, 19eg o Fehefin.	Arholiad TGAU diwethaf.
Nos Iau'r 27ain o Fehefin	**Seremoni Ffeil Gynnydd Blwyddyn 11**- Neuadd yr Ysgol 5:15 – 6:30 y.h. **Prom Blwyddyn 11**, Clwb Rygbi Nant Conwy,Trefriw Llanrwst – 6:30 – 9.00 y.h.
9 a.m. Dydd Iau, 22ain o Awst	Diwrnod y canlyniadau.
Dydd Gwener, 23ain o Awst.	Cyfweliad opsiynau ar gyfer y 6ed dosbarth.

Hoffwn atgoffa'r disgyblion fod gwisg ysgol lawn yn ddisgwyliedig tan ddiwedd eu cyfnod ffurfiol ac ar **gyfer pob arholiad allanol**. Rhaid sicrhau eu bod yn dod â beiros du a'r offer cywir i bob arholiad. Mae copi o'r arweiniad at arholiadau wedi ei rannu ar ddiwedd tymor y Gwanwyn ac ar gael ar safwe'r ysgol.

Mae'n ofynnol bod eich mab /merch yn mynychu pob arholiad maent wedi eu cofrestru amdanynt. Mae presenoldeb llawn yn allweddol tan ddiwedd y dydd ar yr 24ain o Fai. Os oes salwch neu anaf yn codi yn ystod y cyfnod gofynnwn i chi gysylltu efo'r ysgol ar frys gan ofyn am Mrs Delyth Williams neu Mr John Roberts (01492 642802/800). Bydd angen nodyn meddygol ar gyfer unrhyw absenoldeb o arholiad allanol oherwydd salwch/anaf.

Byddwn yn rhannu'r holl wybodaeth ar safwe'r ysgol ac yn ei ddiweddaru os oes newid. Rydych eisoes wedi cael copïau o'ch amserlen arholiadau - os oes angen copi arall arnoch cysylltwch â Mrs Delyth Williams, Swyddog Arholiadau'r Ysgol (delythw@dyffrynconwy.conwy.sch.uk <mailto:delythw@dyffrynconwy.conwy.sch.uk>).

Dymunwn yn dda iawn i'n holl ddisgyblion yn eu harholiadau - gwyddom eu bod wrthi'n adolygu ac y byddent yn gweithio gyda ni dros yr wythnosau nesaf er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud eu gorau yn yr arholiadau.

Yn gywir,

Miss Elan Davies [Pennaeth]
Mr John Roberts [Dirprwy]
Mrs Catrin Jones [Rheolwr Cynnydd a Dysgu Bl.11]

Cyngor Celfyddydau Cymu
Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru
Supported by The National Lottery through the Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government